



Yr Athro Robert Lee
Cadeirydd
Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol

19 Tachwedd 2020

Annywl Robert,

Diolch am ddarparu'r adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ar Lywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae fy swyddogion wedi cwblhau'r ymarfer arfarnu opsiynau erbyn hyn ac rwyf wedi cael cyfle i adolygu rhinweddau amryw o ddulliau gweithredu.

Ystyriodd yr arfarniad opsiynau bedwar opsiwn.

Opsiwn 1 – Gwneud dim

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw fesurau newydd yn cael eu rhoi ar waith i ddisodli rôl Comisiwn yr UE o ran llywodraethu amgylcheddol, gan ddibynnu yn hytrach ar gyrff goruchwyllo a rheoleiddio presennol Cymru.

Rwyf wedi diystyru'r opsiwn hwn gan nad yw'n bodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru na fyddai unrhyw ostyngiad yn hawliau dinasyddion o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn gadael Cymru heb system benodol ar gyfer goruchwyllo cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol.

Opsiwn 2 - Defnyddio corff neu gyrff presennol

O dan yr opsiwn hwn, ystyriwyd gwella swyddogaethau cyrff presennol. Ystyriwyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW), Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW), Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (FGC) ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru (PINS).

Rwyf wedi diystyru'r opsiwn hwn gan na allai unrhyw gorff unigol, fel y mae wedi'i gyfansoddi ar hyn o bryd, ymgymryd â'r holl swyddogaethau gofynnol, a byddai ychwanegu'r swyddogaeth llywodraethu amgylcheddol yn anghyson â'u rôl graidd neu'n ystumio'r rôl honno.

Ystyriwyd opsiwn hybrid hefyd o ddefnyddio'r cyrff i ymdrin â gwahanol swyddogaethau gofynnol, ond nodwyd ei fod yn rhy gymhleth ac yn aneglur.

Opsiw 3 – Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru

Dyma'r opsiwn a gefnogwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a dyma oedd sail argymhellion y Grŵp Gorchwyl. Ystyriodd yr arfarniad opsiynau amryw o fodelau, gan gynnwys y model comisiwn a ffafriwyd gan y Grŵp Gorchwyl, ond hefyd fodel comisiynydd, tribiwnlys a Chorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Credaf mai model y comisiwn neu'r comisiynydd yw'r dull mwyaf priodol gan y gallai ymgymryd â'r casgliad gofynnol o swyddogaethau gyda'r graddau angenrheidiol o annibyniaeth. Byddai angen gwneud rhagor o waith ar y cyfansoddiad a'r cynllun penodol.

Rwy'n cefnogi'r opsiwn hwn mewn egwyddor gan mai hwn sy'n cyfateb orau o ran cyflawni ymrwymadau a pholisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd y ddarpariaeth yn amodol ar argaeledd slot deddfwriaethol i ddatblygu'r deddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol a'r gwaith o nodi'r gyllideb.

Fel y gwyddoch, oherwydd y pwysau mae ymadael â'r UE ac ymateb i'r argyfwng COVID-19 wedi ei roi ar y rhaglen deddfwriaethol, ni fu'n bosibl cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yn y tymor hwn. Fodd bynnag, yn y ddatl yn dilyn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf, ailadroddodd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i wneud hynny.

Opsiw 4 - Defnyddio Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP)

Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddiwygio Bil Amgylchedd y DU er mwyn ymestyn cylch gwaith OEP i Gymru.

Rwyf wedi diystyru'r opsiwn hwn gan nad wyf yn credu bod OEP yn darparu model addas i Gymru. Fe'i crëwyd i fynd i'r afael â'r bylchau fel yr oeddent yn berthnasol yn Lloegr, ac felly nid yw'n briodol ar gyfer y fframwaith deddfwriaethol a'r mecanweithiau atebolrwydd gwahanol sydd gennym eisoes yng Nghymru, megis Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwyf hefyd o'r farn nad oes gan gyfansoddiad OEP fel Corff a Noddir gan y Llywodraeth yr annibyniaeth ofynnol.

Rwyf wedi ymateb i bob un o argymhellion y Grŵp Gorchwyl yn Atodiad A.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Grŵp Gorchwyl am eu cyngor a'u hystyriaeth wrth ddatblygu'r argymhellion ac edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth barhaus wrth i ni symud tuag at y cam nesaf o ran datblygu polisi manwl.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei anfon at aelodau'r Grŵp Gorchwyl hefyd a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru fel fy ymateb ffurfiol.

Yn gywir



Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

<p>c) Gan gydnabod maint Cymru, dylai'r Comisiwn gael ei gyfansoddi mewn modd sy'n briodol i Gymru, gyda staff parhaol ond gyda'r gallu i ddefnyddio Panel Arbenigol i ychwanegu at ei swyddogaethau, gan ganiatáu dull hyblyg a chaniatáu i'r corff fanteisio ar amrywiaeth eang o arbenigedd. Dylai'r Comisiwn gael swyddogaethau priodol i dderbyn ac ymateb i gwynion gan ddinasyddion yng Nghymru ac i gynnal ymchwiliadau lle nodwyd materion systemig drwy ymchwiliadau a chraffu. Dylai fod ganddo bwerau i uwchgyfeirio materion lle bo angen i atal niwed amgylcheddol.</p>	<p>Derbyn</p>
<p>d) Dylai'r Comisiwn allu mynd i'r afael â materion mewn modd priodol, o gynghori cyrff cyhoeddus yng Nghymru i orfodi a defnyddio mecanweithiau adolygiad amgylcheddol gerbron yr Uwch Dribiwnlys</p>	<p>Derbyn</p>
<p>e) Dylai'r Comisiwn allu cydweithio â chyrff eraill</p>	